

THELWALL (TEULU), Plas y Ward, Bathafarn, Plas Coch, a Llanbedr, sir Ddinbych.

Daeth JOHN THELWALL, y cyntaf o'r teulu, i ardal Rhuthyn gyda Reginald de Grey tua'r flwyddyn 1380. Priododd JOHN THELWALL, ei fab, Ffelis, merch ac etifeddes Walter Cooke neu Ward, o Blas y Ward, ac felly y cysylltwyd gyntaf y lle hwnnw a'r teulu. Mab i Edward Thelwall, a oedd yn or- yr i John a Ffelis, oedd RICHARD THELWALL, a fu farw yn eisteddfod Caerwys yn 1568 tra'n eistedd ar y comisiwn yno.

Etifedd Richard Thelwall oedd SIMON THELWALL (1526 - 1586), a dderbyniwyd yn fyfyrwr i'r Inner Temple ym mis Tachwedd 1555, a wnaed yn fargyfreithiwr ar 8 Chwefror 1568, ac a fu'n aelod seneddol dros Ddinbych, Chwefror-Mawrth 1553, Medi-Rhagfyr 1553, a 1571, a sir Ddinbych, 1563-7. Bu'n uchel-siryf yn 1572 ac yr oedd yn aelod o gyngor y gororau. Dewiswyd ef yn farnwr cynorthwyol i John Throgmorton, Caer, yn 1576 a 1579, ac yn ddirprwy-farnwr yn 1580 a 1584. Yn y swydd honno yn 1584 y dyfarnodd ef [Rhisiart Gwyn](#), y merthyr Catholig o Lanidloes, i'w farwolaeth erchyll. Yr oedd yn r craff, cyfrwys, ac, yn ôl [Simwnt Fychan](#), yn hyddysg mewn wyth iaith. Wedi marw [Gruffudd Hiraethog](#), c. 1560 ymddengys i [Simwnt](#) adael teulu [Mostyn](#) a myned yn fardd teulu at Thelwaliaid Plas y Ward. Mewn awdl foliant i Simwnt Thelwall geilw'r bardd ef yn gyfaill a meistr iddo, a dywedir mai trwy ' eiriol S. TH. y troes S. F. epigram Martial am wynfyd neu ddedwyddyd bydol i Gymraeg.' Yn N.L.W. MS. 354 (12) ysgrifennodd rhyw gopiwr: ' Simwnt Thelwall oedd r clodfawr, fe a ysgrifennodd lyfrau o'r gyfraith, ac fe a'i gwnawd yn un o'r barwniaid ac yn ustus y saith sir gan y Frenhines Elsbeth sef Sir Gaer a chwe sir Gwynedd.' At hyn oll medrai lunio englyn cywrair fel y prawf ei gyfraniad ef i'r ymryson a fu rhyngtho a [Syr Rhys Gruffydd](#) a [William Mostyn](#) (N.L.W. MS. 1553 (761)). Priododd (1) Alis, merch [Robert Salisbury o Rug](#), (2) Jane, merch John Massy o Broxon, sir Gaer, (3) Margaret, merch [Syr William Gruffydd o'r Penrhyn](#). Bu farw 15 Ebrill 1586, a chladdwyd ef yn Rhuthyn.

Mab hynaf Simwnt Thelwall o'i briodas gyntaf oedd EDWARD THELWALL (bu farw 1610, a briododd (yn drydedd wraig) [Catrin o'r Berain](#). Priododd SIMON, ei fab o'r ail briodas, Gaenor, ferch y [Dr. Elis Prys](#) o Blas Iolyn, ac o'r briodas hon y disgynnodd Thelwaliaid Rhuthyn.

O linach John Thelwall mab Eubule ap Simon ap Dafydd ap John Thelwall Hen, a'i wraig, Margaret, merch leuan ap Dio ap Meredydd o Langar, y disgynnodd cangen Parc Bathafarn o'r teulu. Mab iddynt hwy oedd JOHN WYNN THELWALL (1528 - 1586). Priododd ef Jane (a fu farw 12 Rhagfyr 1585), merch Thomas Griffith o Bant y Llongdy yn Nhegeingl. Bu farw 29 Hydref 1586. Ganwyd iddynt hwy 10 o feibion a phedair merch, a haedda nifer ohonynt sylw arbennig.

Yr hynaf o'r meibion hyn oedd JOHN THELWALL (1533 - 1630), a feithrinwyd yn y llys brenhinol yng ngwasanaeth yr arglwyddes Warwick. Pan oedd yn 22 mlwydd oed gadawodd y llys i briodi Elisabeth, merch a chydetifeddes Robert ap Wyn o Bacheirig a Bryn-cynric. Gwnaed ef gan y brenin lago yn oruchwyliwr castell Rhuthyn am ei oes.

Pedwerydd mab John Wynn Thelwall oedd RICHARD THELWALL, a briododd Margaret, merch ac etifeddes John ab Edward Lloyd o Blas Llanbedr, Dyffryn Clwyd. Yno yr ymsefydlodd ef, ac o'r briodas hon y daeth teulu Thelwall Llanbedr. Rhoddodd y brenin lago iddo yntau drwydded i fod yn oruchwyliwr castell Rhuthyn. Pan fu farw yn 1630 ymddengys ei fod dros 80 mlwydd oed.

EUBULE THELWALL (1562 - 1630), prifathro Coleg Iesu, Rhydychen Addysg,

oedd pumed mab John Wynn Thelwall. Addysgwyd ef yn Ysgol Westminster a Choleg y Drindod, Caergrawnt, lle y graddiodd yn B.A. yn 1577. Aeth i Rhydychen yn 1579, a chymerth radd M.A. yn 1580. Fe'i derbyniwyd yn aelod o Gray's Inn, a gwnaed ef yn fargyfreithiwr yn 1599, ac yn drysorydd Gray's Inn yn 1625. Derbyniodd swydd prif-feistr swyddfa'r Ymddeoliaid (Alienation Office) a dyrchafwyd ef yn un o feistri uchel lys y Chancery, 1617-30. Urddwyd ef yn farchog ar 29 Mehefin 1619, ac fe'i etholwyd yn aelod seneddol dros sir Ddinbych 1624-6 a 1628-9, ac yn brifathro Coleg Iesu, Rhydychen, yn 1621. Bu farw'n ddibriod 8 Hydref 1630, yn 68 mlwydd oed, a chladdwyd yng nghapel Coleg Iesu, lle y cododd ei frawd, Syr Bevis Thelwall, gofgolofn iddo. Galwyd ef yn ail-sefydlydd y coleg oherwydd iddo wario £5,000 ar atgyweirio ei neuadd a'i gapel, ac am iddo lwyddo yn 1622 i sicrhau siartr newydd i'r coleg gan y brenin lago I. Gadawodd i'w nai, John, ei stad, a Phlas Coch a godasai iddo'i hun ym mhlwyf Llanychen, sir Ddinbych. Y mae darlun ohono'n blentyn ar gadw yng Ngholeg Iesu.

SIMON THELWALL (1561 - 16?), cyfreithiwr Cyfraith,

a seithfed mab John Wynn Thelwall. Derbyniwyd ef i Goleg Balliol, Rhydychen, tua 16 Hydref 1581, yn 20 mlwydd oed. Graddiodd yn B.A. 28 Chwefror 1584, ac yn 1591 aeth yn fyfyrwr i Lincoln's Inn. Fe'i dewiswyd yn brif glerc i'r barnwr Syr Daniel Dunne, ac yn gofrestrydd Bangor. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Ddinbych, 1593-1614. Priododd Ann Biggs, perchen stad yn Essex.

Nawfed mab John Wynn Thelwall oedd AMBROSE THELWALL (1570 - 1652). Bu ef yng ngwasanaeth Syr Francis Bacon cyn mynd yn geidwad y gwisgoedd i lago I, Siarl I, a Siarl II (pan oedd hwnnw'n dywysog Cymru). Bu farw 5 Awst 1652, a chladdwyd ym mynwent Llanrhydd.

Degfed mab John Wynn Thelwall oedd Syr BEVIS THELWALL (-1600-). Rhwymwyd ef yn brentis i farsiadwr sidan mwyaf y

dydd yn Siêb, Llundain, a ofalai am ofnion y frenhines Elisabeth. Priododd ferch i'w feistr, ac ar hynny aeth yn gydymaith busnes gyda'i dad-yng-nghyfraith. Daeth yn gyfeillgar â'r brenin Iago I, pan oedd yn frenin yn Sgotland, ac ar ei ddyfodiad i orsedd Lloegr gwnaed Thelwall yn was ei ystafell wely. Priododd deirgwaith.

Awdur

Dr David Jenkins, (1912 - 2002)

Ffynonellau

Llawysgrifau Crosse a Shaw Hill yn Ll.G.C.

J. Y. W. Lloyd, *History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog*, iv, 311, seq
Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandoverly 1846), ii, 335-6

Foster, *Alumni Oxonienses*

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889-96) (ail arg.), ix, 598A

NLW MSS 354 (12), 1553 (761)

A. H. Dodd yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, iii (1954), tt. 46-7, 58-9, 69, 75-6, 78, 83, ac yn neilltuol 87-9

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Teulu'r Thelwall](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804784](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

